

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2024 Rhif (Cy.)

IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU

Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu
Hesemptio o ran Triniaethau
Arbennig (Cymru) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig (fel y'u rhestrir yn adran 57 o'r Ddeddf) yng Nghymru.

Rhaid i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall, yng nghwrs busnes, gael ei drwyddedu, oni bai ei fod wedi ei esemptio (adran 58(2) o'r Ddeddf).

Mae adran 60(1) a (2) o'r Ddeddf yn manylu ar yr amgylchiadau pan fo unigolyn wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig. Mae aelodau o broffesiynau penodol yn cael eu trin fel unigolion sydd wedi eu hesemptio at ddibenion adran 60 o'r Ddeddf, oni bai bod rheoliadau yn cyfyngu ar hyd a lled y triniaethau arbennig y caiff aelodau o'r proffesiynau hynny eu rhoi.

Caiff rheoliadau ddarparu i unigolion sy'n aelodau o broffesiynau eraill, neu sy'n weithwyr penodedig eraill, gael eu hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig (adran 60(3) o'r Ddeddf).

Mae rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau ar gyfer aelodau o broffesiynau penodol a gwmpesir gan adran 60(1) a (2) o'r Ddeddf. Mae rheoliad 3 yn darparu nad yw aelodau o broffesiynau penodol i'w trin fel pe baent wedi eu hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded i roi triniaethau arbennig penodedig. Mae rheoliad 4 yn darparu bod aelodau o

broffesiynau penodol i'w trin fel pe baent wedi eu hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded i roi triniaethau arbennig penodedig os yw amodau penodol wedi eu bodloni.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i aelodau o broffesiynau penodol gael eu trin fel pe baent wedi eu hesemptio rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig mewn perthynas â thriniaeth arbennig benodol. Mae'r esemptiad hwn yn gymwys os yw amodau penodol wedi eu bodloni.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2024 Rhif (Cy.)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu
Hesemptio o ran Triniaethau
Arbennig (Cymru) 2024**

Gwnaed

Yn dod i rym

29 Tachwedd 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 60(1), (3) a (5) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Tachwedd 2024.

-
- (1) 2017 dccc 2 ("y Ddeddf"). *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "rheoliadau".
- (2) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “bydwraig gofrestredig” (“*registered midwife*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y Rhan i’r Bydwraedd o’r Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr “ciropodydd” (“*chiropodist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 2 o gofrestr yr HCPC ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;

ystyr “ciropractydd” (“*chiropractor*”) yw ciropractydd cofrestredig o fewn ystyr y term “registered chiropractor”, fel y’i nodir yn adran 43 o Ddeddf Ciropractyddion 1994(1), ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Ciropractig Cyffredinol;

ystyr “cofrestr yr HCPC” (“*HCPC register*”) yw’r gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir o dan erthygl 5 o Orchymyn 2001 gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal(2) a sefydlwyd o dan erthygl 3 o’r Gorchymyn hwnnw, ac y mae darpariaeth bellach wedi ei gwneud yn ei chylch yng Ngorchymyn y Cyfrin Gyngor Proffesiynau Iechyd (Rhannau o’r Gofrestr a Chofnodion ynddi) 2003(3);

ystyr “Cofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth” (“*Nursing and Midwifery Register*”) yw’r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(4);

ystyr “cydymaith nyrsio cofrestredig” (“*registered nursing associate*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y Rhan i’r Cymdeithion Nyrsio o’r Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Meddygaeth 1983(5);

ystyr “Deddf 1984” (“*the 1984 Act*”) yw Deddf Deintyddion 1984(6);

ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Optegwyr 1989(7);

(1) 1994 p. 17.

(2) Mae’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (“*the Health and Care Professions Council*”) wedi ei enwi felly gan adran 214(1)(b) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7) a chyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel “yr HCPC”. Cyn i’r ddarpariaeth honno ddod i rym, enw’r corff oedd y Cyngor Proffesiynau Iechyd (“*the Health Professions Council*”).

(3) O.S. 2003/1571, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1996; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(4) O.S. 2002/253, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1182 ac O.S. 2018/838.

(5) 1983 p. 54.

(6) 1984 p. 24.

(7) 1989 p. 44.

ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Safonau Gofal 2000(1);

ystyr “deintydd” (“*dentist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o ddeintyddion a gedwir yn unol ag adran 14 o Ddeddf 1984 ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;

ystyr “fferylllydd” (“*pharmacist*”) yw—

- (a) mewn perthynas â Phrydain Fawr, person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 1 o’r gofrestr o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa a gynhelir o dan erthygl 19(2) o Orchymyn 2010 ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, a
- (b) mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o gemegwyr fferyllol ar gyfer Gogledd Iwerddon a gynhelir yn unol ag Erthyglau 6(a) a 9 o Orchymyn 1976 ac sy’n cael ei reoleiddio gan Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon;

ystyr “ffisiotherapydd” (“*physiotherapist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 9 o gofrestr yr HCPC ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;

ystyr “Gorchymyn 1976” (“*the 1976 Order*”) yw Gorchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976(2);

ystyr “Gorchymyn 2001” (“*the 2001 Order*”) yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(3);

ystyr “Gorchymyn 2010” (“*the 2010 Order*”) yw Gorchymyn Fferylliaeth 2010(4);

ystyr “myfyriwr-fferylllydd” (“*student pharmacist*”), mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o fyfyrwyr ar gyfer Gogledd Iwerddon a gynhelir yn unol ag Erthyglau 6(c) a 9 o Orchymyn 1976, ac sy’n cael ei reoleiddio gan Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon;

ystyr “myfyriwr-optegydd cyflenwi” (“*student dispensing optician*”) yw person sydd wedi ei

(1) 2000 p. 14.

(2) O.S. 1976/1213 (G.I. 22); y diwygiadau perthnasol yw Deddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), adran 87(1), Rh.St. 2008/192, rheoliad 5 (sydd bellach wedi ei ddirymu), O.S. 2019/585, rheoliad 1(2), a pharagraff 6(a) o’r Atodlen iddo (fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/1394, rheoliad 20(7)), O.S. 2022/849, erthyglau 1(3), 10, ac O.S. 2022/1023, erthygl 2.

(3) O.S. 2002/254, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1182; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(4) O.S. 2010/231, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/593, Atodlen 2(1), paragraff 9; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

gofrestru yn y cofrestrau o fyfyrwyr a gynhelir o dan adran 8A o Ddeddf 1989(1) fel person sy'n ymgymryd â hyfforddiant i fod yn optegydd cyflenwi, ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

ystyr “myfyriwr-optometrydd” (“*student optometrist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y cofrestrau o fyfyrwyr a gynhelir o dan adran 8A o Ddeddf 1989 fel person sy'n ymgymryd â hyfforddiant i fod yn optometrydd, ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

ystyr “nyrs gofrestredig” (“*registered nurse*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y Rhan i'r Nyrsys o'r Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr “optegydd cyflenwi” (“*dispensing optician*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optegwyr cyflenwi a gynhelir o dan adran 7(b) o Ddeddf 1989(2) ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

ystyr “optometrydd” (“*optometrist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7(a) o Ddeddf 1989 ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;

ystyr “osteopath” (“*osteopath*”) yw osteopath cofrestredig o fewn ystyr y term “registered osteopath”, fel y'i nodir yn adran 41 o Ddeddf Osteopathiaid 1993(3), ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol;

ystyr “podiatrydd” (“*podiatrist*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 2 o gofrestr yr HCPC ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;

ystyr “proffesiynolyn gofal deintyddol” (“*dental care professional*”) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol a sefydlwyd ac a gynhelir o dan adran 36B o Ddeddf 1984(4) ac sy'n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;

ystyr “Rheoliadau 2011” (“*the 2011 Regulations*”) yw Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011(5);

ystyr “sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir” (“*regulated independent healthcare establishment*”) yw—

-
- (1) Ychwanegwyd adran 8A gan O.S. 2005/848, erthygl 9.
(2) Diwygiwyd adran 7 gan O.S. 2005/848, erthygl 7.
(3) 1993 p. 21.
(4) Mewnosodwyd adran 36B gan O.S. 2005/2011, erthyglau 2(1) a 29.
(5) O.S. 2011/734 (Cy. 112), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/202 (Cy. 57); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

- (a) clinig annibynnol fel y diffinnir “independent clinic” gan adran 2(4) o Ddeddf 2000 ac fel y’i rhagnodir gan reoliad 4 o Reoliadau 2011;
- (b) ysbyty annibynnol fel y diffinnir “independent hospital” gan adran 2(2) a (3) o Ddeddf 2000 ac fel y’i rhagnodir gan reoliad 3 o Reoliadau 2011;
- (c) practis deintyddol preifat fel y’i diffinnir gan reoliad 3(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017(1);

ystyr “technegydd fferyllfa” (*“pharmacy technician”*) yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 2 o’r gofrestr o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa a sefydlwyd ac a gynhelir o dan erthygl 19(2) o Orchymyn 2010 ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol;

mae i “triniaeth arbennig” (*“special procedure”*) yr ystyr a roddir yn adran 57 o’r Ddeddf;

mae i “trwydded triniaeth arbennig” (*“special procedure licence”*) yr ystyr a roddir yn adran 59 o’r Ddeddf;

ystyr “ymarferydd meddygol didrwydded” (*“unlicensed medical practitioner”*) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol fel y’i diffinnir gan adran 2(2) o Ddeddf 1983, nad yw’n dal trwydded i ymarfer o dan adran 29A(1) o’r Ddeddf honno ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol;

ystyr “ymarferydd meddygol trwyddedig” (*“licensed medical practitioner”*) yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol fel y’i diffinnir gan adran 2(2) o Ddeddf 1983, sy’n dal trwydded i ymarfer o dan adran 29A(1) o’r Ddeddf honno ac sy’n cael ei reoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Triniaethau arbennig penodedig at ddibenion adran 60(1) o’r Ddeddf ar gyfer aelodau o broffesiynau penodol

3. Nid yw unigolyn sy’n aelod o broffesiwn a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 1 wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael ei drwyddedu, os yw’r unigolyn yn dymuno rhoi pob triniaeth arbennig a bennir yng ngholofn 2 o’r Atodlen honno.

(1) O.S. 2017/202 (Cy. 57). *Gweler* rheoliad 4 ar gyfer ymgymeriadau nad ydynt yn bractisau deintyddol preifat.

Triniaethau arbennig penodedig at ddibenion adran 60(1) o'r Ddeddf ar gyfer aelodau o broffesiynau penodol oni bai bod amodau penodol wedi eu bodloni

4.—(1) Nid yw unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 2 wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael ei drwyddedu mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno, oni bai bod paragraff (3) yn gymwys.

(2) Nid yw unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 3 wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael ei drwyddedu mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno, oni bai bod paragraff (3) yn gymwys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan fo unigolyn yn rhoi'r driniaeth arbennig mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a
- (b) pan na fo unigolyn yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, unrhyw gyfyngiadau nac unrhyw sancsiynau ar ei gofrestriad proffesiynol, mewn perthynas â'i addasrwydd i ymarfer.

Esemptiad ar gyfer aelodau o broffesiynau penodedig at ddibenion adran 60(3) o'r Ddeddf

5. Mae unigolyn—

- (a) sy'n aelod o broffesiwn a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 4,
- (b) sy'n rhoi triniaeth arbennig a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno mewn sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, ac
- (c) nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw amodau, unrhyw gyfyngiadau nac unrhyw sancsiynau ar ei gofrestriad proffesiynol, mewn perthynas â'i addasrwydd i ymarfer,

i'w drin fel pe bai wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael ei drwyddedu i roi'r driniaeth arbennig honno.

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Atodlen 1 Rheoliad 3

Triniaethau arbennig penodedig ar gyfer
proffesiynau penodol at ddibenion adran
60(1) o'r Ddeddf

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Y Proffesiwn	Y Driniaeth arbennig
Fferyllydd	Aciwbigo
Myfyriwr-fferyllydd	Electrolysis
Myfyriwr-optegydd cyflenwi	Tatwio
Myfyriwr-optometrydd	Tyllu'r Corff
Optegydd cyflenwi	
Optometrydd	
Technegydd fferyllfa	
Ymarferydd meddygol didrwydded	

Atodlen 2 Rheoliad 4

Triniaethau arbennig penodedig ar gyfer
proffesiynau penodol at ddibenion adran
60(1) o'r Ddeddf oni bai bod amodau
penodol wedi eu bodloni

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Y Proffesiwn	Y Driniaeth arbennig
Bydwraig gofrestredig	Aciwbigo
Cydymaith nyrsio cofrestredig	Electrolysis
Deintydd	Tatŵio
Nyrs gofrestredig	Tyllu'r Corff
Proffesiynolyn gofal deintyddol	
Ymarferydd meddygol trwyddedig	

Atodlen 3 Rheoliad 4

Triniaethau arbennig penodedig ar gyfer
proffesiynau penodol at ddibenion adran
60(1) o'r Ddeddf oni bai bod amodau
penodol wedi eu bodloni

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Y Proffesiwn	Y Driniaeth arbennig
Ciropractydd	Aciwbigo
Osteopath	

Atodlen 4 Rheoliad 5

Esemptiad ar gyfer aelodau o
broffesiynau penodedig at ddibenion
adran 60(3) o'r Ddeddf

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
Y Proffesiwn	Y Driniaeth arbennig
Ciropodydd	Aciwbigo
Ffisiotherapydd	
Podiatrydd	